

HANES - EWROP AC AMERICA

Amser - 1.5 awr

Atebwch UN cwestiwn o Adran A ac UN cwestiwn o Adran B.

ADRAN A

1. Beth oedd yn arbennig am yr Ysgol Annales?
2. 'Ym mhob enghraifft hanesyddol fwy neu lai, gellir gweld gweithredoedd unigolion ond mae'r cymhelliant gwaelodol sydd ganddynt ynghudd'. Ydych chi'n cytuno?
3. A yw haneswyr yn dal i orfod mynd i archifdai?
4. Beth yw'r berthynas rhwng Hanes a'r Cof?
5. A oes gogwydd i'w gael i holl hanes?
6. A ddylid dymchwel pob cerflun a godwyd i gadfridogion Cydffederal yn yr Unol Daleithiau?

ADRAN B

Y Cyfnod Cynnar a'r Oesoedd Canol

7. Dadansoddwch gymhellion y rhai a aeth ar y Groesgad gyntaf.
8. Ai'r Groesgad gyntaf oedd yr unig un llwyddiannus?
9. A oedd y Sisili Normanaidd yn deyrnas 'amlddiwylliannol'?
10. Beth y gall Vincent Kadlubek ei ddweud wrthym am gymdeithas Gwlad Pwyl yn y ddeuddegfed ganrif?
11. Dadansoddwch y gwahaniaethau a'r elfennau tebyg rhwng Ailoresgyniad a Chroesgad.
12. Sut a pham y mae dehongliadau o'r croesgadau wedi newid ers tua 1950?
13. Ai rhyfel neu afiechyd a achosodd y newid mwyaf yn Ewrop yn y canoloesoedd. Cewch gyfyngu eich ateb i un wlad.

14. Ym mha ffyrdd y newidiodd y berthynas rhwng poblogaeth ac adnoddau yn Ewrop yn y canoloesoedd, rhwng 1200 a 1500? Cewch gyfyngu eich ateb i un wlad.
15. Beth oedd y rhan a chwaraeai'r Eglwys yn y gymdeithas ganoloesol?
16. Beth oedd prif ganlyniadau'r Pla Du?
17. 'Roedd teithio a symudedd yn hanfodol i gymdeithas yr Oesoedd Canol weithredu'. Trafodwch.
18. Pam y mae 'canoloesol' weithiau'n cael ei ddefnyddio'n ddifriol, ac a oes cyfiawnhad i hyn?

Y Cyfnod Modern Cynnar

19. A oedd 'Dadeni' cyflawn yn bosibl y tu allan i'r Eidal?
20. A wnaeth twf argraffu drawsnewid diwylliant yn Ewrop mewn gwirionedd?
21. 'Gan iddo geisio diwygio ac adfer, Luther yw'r enghraifft fwyaf gogoneddus o fethiant yn hanes.' Trafodwch.
22. A fyddai Diwygiad Catholig yn well teitl i'r Gwrthddiwygiad?
23. A yw teyrnasiad Louis XIV yn nodi trobwynt arwyddocaol yn hanes y cyfnod modern cynnar yn gyffredinol?
24. Aseswch arwyddocâd 'darganfod' America gan Christopher Columbus yn 1492.
25. A oedd Ewropeaid yn euog o hil-laddiad yn y Byd Newydd'?
26. 'Cymerai Affricaniaid ran weithgar yn y byd Atlantig' (John Thornton). Trafodwch.
27. Pam yr ystyrir mai'r Chwyldro Ffrengig yn 1789 sy'n nodi diwedd y cyfnod modern cynnar?

Y Cyfnod Modern

28. Beth oedd achosion a chanlyniadau'r Teyrnasiad Braw?
29. I ba raddau y llwyddodd Chwyldroadau 1848 yn Ewrop?
30. Esboniwch fuddugoliaeth yr Undeb yn Rhyfel Cartref America.
31. Esboniwch pam yr unwyd naill ai'r Eidal neu'r Almaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.
32. Nodwch ac aseswch y tair ffactor bwysicaf a arweiniodd at ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf.
33. "Bu gan fenywod ran hanfodol yn y ddau Chwyldro yn Rwsia yn 1917 ac yn natblygiad y wladwriaeth Sofiet newydd." I ba raddau y mae'r datganiad hwn yn wir?
34. Pam y dymchwelodd Ail Ymerodraeth yr Almaen ym 1918?
35. Ym mha ffordd yr effeithiodd gorchwyddiant 1918-1923 ar yr Almaen?
36. Ym mha ffordd y trawsnewidiwyd yr Undeb Sofietaidd gan Stalin yn ei ddegawd cyntaf mewn grym?

37. I ba raddau yr oedd Hitler yn arweinydd 'cryf'?
38. Ai Cwmp Wall Street neu drafferthion eraill yn economi America oedd bennaf ar fai am y dirwasgiad economaidd yn y 1930au?
39. Ym mha ffyrdd y newidiwyd y berthynas rhwng y wladwriaeth ffederal a dinasyddion America gan Fargen Newydd Roosevelt?
40. Pa ran a chwaraewyd gan 'Warchae Berlin' yn nechreuadau'r Rhyfel Oer?
41. Pa mor llwyddiannus fu mudiad hawliau sifil pobl dduon yr Unol Daleithiau yn y 1950au a'r 1960au?
42. Beth yw'r eglurhad gorau am ymyriad yr Unol Daleithiau yn Fietnam?
43. I ba raddau y mae'r ddadl mai Ronald Reagan enillodd y Rhyfel Oer yn argyhoeddi?
44. Pam y dymchwelodd comiwnyddiaeth yn Nwyrain Ewrop ar ôl 1989?